



# ADDEWIDION NADOLIG

## *Sut i ddefnyddio'r adnodd*

Mae'r adnodd hwn ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â phlant oedran cynradd yn bennaf, ond mae croeso i chi ei addasu ar gyfer eich gweithgareddau. Mae pedair rhan i'r adnodd: Mae'r rhan gyntaf yn gyfle i fyfyrion a meddwl mwy am y thema 'addewidion' drwy gyfrwng nifer o gwestiynau. Yn yr ail ran mae nifer o weithgareddau/crefft sydd eto'n canolbwyntio ar y thema addewidion (dewiswch rai ohonyn nhw i'w gwneud). Mae'r drydedd rhan ar ffurf gwasanaeth sy'n adrodd hanes y Nadolig. Ceir syniad am bryd o fwyd ar y thema Nadolig yn y rhan olaf.

Mae'r adnodd wedi ei ddarparu gan y 'Meaningful Chocolate Company' ac yn cynnwys darluniau hardd Alida Massari o Galendr Adfent 2016 ([realadvent.co.uk](http://realadvent.co.uk).)

Mae'r adnodd yn anelu i ddangos:

- ystyr 'addewid'
- gwahanol ffyrdd o wneud addewid
- nad yw Duw byth yn torri ei addewidion
- fod Duw wedi gwneud 'addewidion Nadolig' arbennig yn sôn am Iesu gannoedd o flynyddoedd cyn iddo gael ei eni.

## ***Thema – “Amen” (sef “ie wir!”)***

Mae'r adnodd wedi ei seilio ar 2 Corinthiaid 1:20

'...Fe ydy'r un sy'n dod â'r cwbl mae Duw wedi ei addo yn wir! Dyna pam dŷn ni'n dweud “Amen” (sef “ie wir!”) wrth addoli Duw — o achos y cwbl wnaeth e!

## ***Myfyrdod – cyfle i feddwl***

Ydych chi wedi sylweddoli nad hap a damwain oedd genedigaeth Iesu? Roedd yn ateb i addewidion a wnaed gan Dduw drwy ei broffwydi (negeswyr Duw yn yr Hen Destament) dros gyfnod o 700 a mwy o flynyddoedd.

Yn Iesu, mae Duw wedi dangos ei fod yn ein caru ni, a bod ganddo'r gallu i gadw ei addewidion. Os ydy Duw yn addo y bydd rhywbeth yn digwydd yna fe fydd yn digwydd. Pam? Oherwydd ei allu. Duw a greodd y byd - rydyn ni'n byw yn ei fyd Ef. Mae ei addewidion yn wahanol i'n rhai ni.

Dyma eiriau Duw yn Mathew 5:34; 'Ond dw i'n dweud wrthoch chi, Peidiwch tyngu llw o gwbl: ddim i'r nefoedd, am mai dyna orsedd Duw.' (beibl.net)

Ydy Duw'n dweud wrthym ni i beidio â gwneud addewidion?

Dim o gwbl! Mae addewidion yn bwysig a dylen ni fod yn ffyddlon i'r rhai dŷn ni'n eu gwneud ond yn wahanol i addewidion Dduw, mae ein haddewidion ni'n chwalu weithiau oherwydd gwahanol amgylchiadau. Yn aml iawn dydy'n addewidion ni ddim yn para. Gan mai nad ni sy'n rheoli'r byd dydy'n addewidion ni ddim yn aros am byth.

## ***Cwestiynau***

Beth yw ein hymateb ni? Sut ydyn ni'n dangos i eraill bod addewidion yn bwysig?

Ydy Duw yn cadw ei addewidion? Wyt ti'n cadw dy addewidion?

## GWEITHGAREDD 1 – Seliâu & Sgroliau



Rydyn ni'n mynd i feddwl mwy am ADDEWIDION – darganfod beth yw addewid a pha mor ddifrifol ddylen ni fod wrth wneud addewid. Mae yna lawer o bethau i wneud a syniadau i archwilio.

*(Cyngor: dewiswch o blith y gweithgareddau sy'n dilyn er mwyn meddwl mwy am y thema 'addewidion'.)*

Gwneud addewid ar sgrôl a dylunio sêl. Rholio'r sgrôl a'i gau gyda rhuban neu liny. *(Rhaid meddwl yn ofalus cyn gwneud yr addewid e.e. mae 'Tacluso fy ystafell cyn diwrnod Nadolig' yn fwy realistig na 'Wnâi byth eto ffraeo gyda fy chwaer/brawd').*

ADNODDAU:

**Papur i wneud sgrôl** – mae gwahanol ffyrdd i'w wneud o edrych yn hen e.e.

defnyddio bag te oer; rhwbio powdr du arno; rhwygo neu dorri'r ymylon ayb. Os dych chi am argraffu copi o'r uchod yna ewch i [FFEIL ADNODDAU – 'Sgrôl-Addewid.pdf'](#).

**Paent** o leiaf 2 liw gwahanol

**Hambwrdd / powlen** er mwyn dipio'r stampiau sêl yn y paent.

**Tatws/tato** wedi eu torri yn eu hanner ac **offer** i dorri cylchoedd a siapiau amrywiol yn y tatws.

**Dechreuwch** – drwy wneud siapiau yn y tatws. (Edrychwch ar y llun).

Bydd angen ysgrifennu **addewid** ar ddarn o bapur a'i arwyddo, neu roi eich **marc**, aros i'r paent sychu, rollo'r sgrôl a'i gau gyda **ruban neu liny**.

## Trafod:

....ysgrifennu llythyrau ac mor bwysig ydy arwyddo llythyrau a dogfennau. Dydy rhai pobl ddim yn gallu 'sgwennu ac maen nhw'n rhoi eu marc ar waelod llythyr. Mae gan rhai pobl bwysig fel y Frenhines sêl. Stamp arbennig ydy sêl- mae sêl yn arwydd o awdurdod a grym. Mae addewid gyda sêl arno yn bwysig iawn. Beth am roi eich addewid yn anrheg Nadolig i rywun?

## GWEITHGAREDD 2 – addewid ar flodyn seren

Gwnewch flodyn gyda rhai o addewidion Duw am eni Iesu o Luc 1:32-33.

<sup>1</sup>Bydd yn ddyn pwysig iawn, a <sup>2</sup>bydd yn cael ei alw'n Fab y Duw Goruchaf. <sup>3</sup>Bydd yr Arglwydd Dduw yn ei osod i eistedd ar orsedd y Brenin Dafydd, a <sup>4</sup>bydd yn teyrnasu dros bobl Jacob am byth. <sup>5</sup>Fydd ei deyrnasiad byth yn dod i **ben!**" (5 addewid)

### ADNODDAU:

Cerdyn A4 wedi ei argraffu o'r templed  
([Templed - Addewid-ar-seren.pdf](#))

Siswrn

Gwellt (*straws*)

Dwedwch: fe wnaeth Duw lawer o addewidion i'w bobl. Fe addawodd y byddai'n achub y byd drwy yrru ei Fab i fyw yma. Siaradwch am rai o'r addewidion yn Luc 1: 32-33.



*GWEITHGAREDD 3 – Gwneud cwlwm*

Dau dîm – y timoedd unigol yn cydweithio i ennill gornest ‘Tynnu Rhaff!’

ADNODDAU:

Rhaff fawr, gryf.

Digon o le!

2 ddarn byr o raff

Trafod:

Cryfder a nerth wrth gydweithio.

Weithiau wrth i bobl siarad am briodi maen nhw'n ei ddisgrifio fel 'cwlwm priodas'. Be dych chi'n meddwl yw ystyr hyn? Be ydy arwyddocâd y ddwy raff yn cael eu clymu gyda'i gilydd?

Ers talwm, pan oedd pobl yn priodi roedd o'n draddodiad mewn rhai ardaloedd i glymu dwylo'r pâr gyda'i gilydd hefo rhuban neu gortyn pan oedden nhw'n gwneud eu haddewidion priodasol.

Hefyd yn yr hen ddyddiau roedd morwyr (sailors) yn danfon rhaff i'w cariadon fel arwydd eu bod eisiau priodi. Os oedd y rhaff yn cael ei yrru'n ôl wedi ei glymu yna'r ateb oedd 'ie'!

Pa fath o addewidion ddylai pobl sydd mewn cariad wneud i'w gilydd?

Beth fyddai dy addewid di i rywun ti'n ei garu?

*GWEITHGAREDD 4 – Gwneud jar addewidion*

Crefft: Addurno jar yn llawn o addewidion wedi eu hysgrifennu ar bapur a'i roi yn anrheg Nadolig. (e.e. 'Dw i'n addo gwneud paned o de i ti').

ADNODDAU:

Jariau gwydr/potiau jam

Rhubanau

Glud

Papur lliwgar

Papur ysgrifennu

Pensiliau lliw

Chwiliwch am 'promise jar ideas' ar y we – mae cannoedd o syniadau!

## GWEITHGAREDD 5– Breichled addewidion

**Crefft:** Gwnewch freichled neu fwclis syml fel anrheg, a gwnewch addewid i'r person hefyd.

**ADNODDAU:**

Papur/ cerdyn lliwgar wedi ei dorri mewn sribedi hir

Pensiliau lliw

Cortyn/llinyn i gau ac agor y freichled






Glud

Siswrn

**Trafod:** cyfnewid modrwyau priodas fel arwydd o'r addewid rhwng pâr priod.



Rhaid plethu dau sribed o bapur/cerdyn lliwgar gyda'i gilydd i wneud y freichled. Mae plant yn deall hyn yn gyflym iawn. Os yw'r sribedi'n rhy fyr, gludwch ddau sribed arall ar y diwedd a daliwch ati i blethu.





## GWEITHGAREDD 6– Addewid i fyd Duw

Crefft:

ADNODDAU:

Bwyd adar (hadau ayb)

Moch coed (*pine cones*)

Llinyn

Braster caled e.e. lard, menyn, margarîn

Dull: Clymwch ddigon o llinyn am y mochyn coed fel y gallwch ei hongian ar frigyn neu leoliad addas y tu allan. Defnyddiwch gyllell i roi'r braster tu mewn a thu allan i'r mochyn coed. Wedyn rholiwch y mochyn coed mewn dysgl o fwyd adar. Gallwch hongian nhw tu allan ar unwaith neu eu rhoi mewn bagiau bach i fynd adre' (cofiwch - bydd hadau ym mhobman!).

Trafod: Fe sy'n rhoi bwyd i bob creadur byw, Mae ei haelioni yn ddiwedd! Rhowch ddiolch i'r Duw sy'n y nefoedd! Mae ei haelioni yn ddiwedd! (Salm 136: 25-26 beibl.net)

Mae Duw wedi darparu ffordd i ni fwydo ein hunain. Weithiau, pan mae bwyd yn brin, mae angen help ar rhai pobl ac ar anifeiliaid. Dych chi'n credu y dylen ni edrych ar ôl y pethau mae Duw wedi eu creu?



Sut ydyn ni'n gofalu am ein gilydd, am bobl eraill ac am y byd o'n cwmpas?

Ydyn ni'n gallu gwneud addewid i ofalu am ein byd – byd Duw?


GWEITHGAREDD 7– Addewid mewn lluniau

Syniad am gêm: Datrys y pos

Byddwch angen argraffu copiâu o'r templed 'Pos-lluniau.pdf' o'r ffolder adnoddau.

Pensiliau / beiros

Beiblau (neu beibl.net ar y cyfrifiadur/ar y sgrin)



*'Tra mae'r byd yn bod,  
bydd amser i blannu a  
chasglu'r cynhaeaf;  
bydd tywydd oer a thywydd  
poeth, haf a gaeaf, nos a  
dydd.'*

Trafod: Pa mor hir mae  
addewid yn para? A ddylen ni  
dorri ein haddewidion? Tybed  
pa mor hir mae Duw yn cadw  
ei addewidion?

Gallwch ymestyn y  
gweithgaredd wrth ofyn i'r  
plant greu eu 'haddewid  
lluniau' eu hunain.

## Dathlu ac Addoli

### ADNODDAU:

- Tri gwirfoddolwr wedi eu gwisgo fel proffwydi – tiwnig/clogyn hir a barf/locsyn!  
Mae yna 'yarn beards' i'w gweld ar Pinterest/Gwgl (maen nhw'n werth chweil)!
- Mae'r proffwydi'n cario sgröliau gydag addewidion Duw wedi eu hysgrifennu arnyn nhw.  
Maen nhw'n darllen yr addewidion mewn lleisiau uchel, awdurdodol.
- Cyflwyniad PowerPoint o hanes y Nadolig o'r ffolder ADNODDAU.
- Rhai o'r addewidion o'r gweithgareddau blaenorol.

Dw i am i chi gyfarfod 3 proffwyd. Be di proffwyd? Wel, person sydd gyda gwaith pwysig iawn i'w wneud, ac mae ganddyn nhw 'fos' pwysig iawn hefyd! Eu 'boss' nhw ydy Duw ei hun! Gwaith proffwyd ydy pasio negeseuon Duw ymlaen i'w bobl.

Pan mae Duw yn siarad mae o bob amser yn dweud y pethau iawn. Mae Duw bob amser yn cadw ei addewidion. Beth am wrando ar rai o addewidion Duw?

Dyma ddau broffwyd – Eseia a Micha. Roedd y ddau'n byw cannoedd o flynyddoedd cyn i Iesu gael ei eni; canrifoedd cyn bod sôn am stori'r Nadolig. Dyma ddwedodd Duw wrthyn nhw:

**Eseia'n agor ei sgrôl:** Mae'r Meistr ei hun yn mynd i roi arwydd i chi! Edrychwch, bydd y ferch ifanc yn feichiog, ac yn cael mab — a bydd y plentyn yn cael ei alw yn Emaniwel. Ystyr Emaniwel ydy 'Duw gyda ni'.

**Eseia'n myfyrio am eiliad ac yna'n dweud,** 'Mae Duw am yrru babi i'r byd - ond fe fydd y babi gydag enw sbesial iawn - enw Duw, Emaniwel! Waw!'

**A Micha.** Be oedd neges Duw i ti? **Micha'n agor ei sgrôl ac yn dweud,**

*Ond wedyn ti, Bethlehem, rwyf ti'n un o'r pentrefi lleiaf pwysig yn Jwda. Ond ohonot ti y daw un fydd yn teyrnasu yn Israel. Bydd yn codi i arwain ei bobl fel bugail yn gofalu am ei braidd. Bydd yn gwneud hyn yn nerth yr ARGLWYDD a gydag awdurdod yr ARGLWYDD ei Dduw.*

**Micha (yn anwesu/mwytho ei locsyn wrth feddwl).** Ymhen 'chydig eiliadau mae o'n dweud, 'Mae ein brenin ni am ddod o Fethlehem'.

Be mae Duw eisiau i ni gofio?

- Am ferch ifanc feichiog fydd yn cael mab - a'r mab hwnnw fydd Mab Duw.
- Ym Methlehem, Jwdea fydd y babi'n cael ei eni.

Beth am weld os wnaeth Duw gadw ei addewidion? (Defnyddiwch 'Hanes-Nadolig.pptx' o'r ffolder Adnoddau.)



Dyma hanes geni Iesu. Doedd o ddim yn fabi cyffredin. Dim o gwbl. Doedd dim byd cyffredin nac arferol amdano.

Mwy na dwy fil o flynyddoedd yn ôl yng ngwlad Israel roedd y bobl yn drist iawn. Roeddent yn drist am fod y Rhufeiniaid yn rheoli eu gwlad.

Roedden nhw'n casáu cael eu rheoli gan y Rhufeiniaid. Roedden nhw eisiau i Dduw yrru brenin i'w rhyddhau nhw.



Roedd Mair a Joseff yn byw yn Nasareth. Un diwrnod daeth yr angel Gabriel i siarad â Mair. Roedd Mair wedi dychryn ond dwedodd Gabriel wrthi i beidio bod ofn. Dwedodd Gabriel wrthi, "Rwyf ti'n mynd i fod yn feichiog, a byddi di'n cael mab. Iesu ydy'r enw rwyf i'w roi iddo. Bydd yn ddyn pwysig iawn, a bydd yn cael ei alw'n Fab y Duw Goruchaf. Fydd ei deyrnasiad byth yn dod i ben!"



Roedd Joseff yn poeni'n fawr pan glywodd fod Mair yn disgwyl babi. Doedd o ddim yn gwybod os dylai o ei phriodi hi.



Daeth angel Duw at Joseff mewn breuddwyd a dweud wrtho, "Joseff fab Dafydd, paid petruso mynd â Mair adre i fod yn wraig i ti, am mai'r Ysbryd Glân sydd wedi gwneud iddi feichiogi. Bachgen fydd hi'n ei gael. Rwyf i roi'r enw Iesu iddo, am mai fe fydd yn achub ei bobl o'u pechodau."



Penderfynodd yr Ymerawdwr Rhufeinig gynnal cyfrifiad. Roedd o eisiau cyfri'r bobl er mwyn gweld faint o drethi ddylai o dderbyn! Roedd rhaid i Mair a Joseff deithio i Fethlehem i gael eu cyfri. Roedd y dre' yn brysur iawn am fod cymaint o bobl wedi gorfod teithio yno i gael eu cyfri.



Cannoedd o filltiroedd i ffwrdd fe welodd y gwŷr doeth seren arbennig yn yr awyr. Roedden nhw'n gyffrous, 'Mae seren newydd yn golygu brenin newydd', medden nhw. Fe aethon nhw ar gefn eu camelod a dilyn y seren.



Tybed beth mae pobl yn rhoi'n anrhegion i frenin? Fe baciodd y gwŷr doeth anrhegion arbennig iawn - fe roddodd un aur i'r brenin newydd; thus oedd anrheg un arall. Powdr costus oedd yn arogl'i'n hyfryd wrth gael ei losgi oedd thus. Roedd thus yn cael ei ddefnyddio pan oedd pobl yn gweddio.



Anrheg arall oedd myrr – powdr costus oedd yn cael ei ddefnyddio i wneud persawr.



Fe deithiodd y gwŷr doeth i balas Herod y brenin – roedden nhw'n meddwl y byddai'r brenin newydd yn cael ei eni mewn palas. Fe ofynnon nhw, 'Ble mae'r un sydd newydd gael ei eni yn frenin yr Iddewon? Gwelon ni ei seren yn codi yn y dwyrain, a dŷn ni yma i dalu teyrnged iddo.'

Pan glywodd y Brenin Herod hyn roedd wedi cynhyrfu'n lân. Dwedodd wrth y gwŷr doeth, "Gadewch i mi wybod pan ddowch o hyd iddo, er mwyn i mi gael mynd i dalu teyrnged iddo hefyd." Ond bwriad Herod oedd lladd y baban.



Dyma'r seren yn mynd o'u blaen, nes iddyn nhw gyrraedd Bethlehem. Rhybuddiodd Duw nhw mewn breuddwyd i beidio mynd yn ôl at Herod, felly dyma'r gwŷr doeth yn teithio yn ôl i'w gwlad eu hunain ar hyd ffordd wahanol.



Roedd Mair a Joseff a nifer fawr o deithwyr eraill wedi cyrraedd Bethlehem i gael eu cyfri. Doedd na ddim digon o ystafelloedd i bawb. "Mae Mair yn disgwyl babi," meddai Joseff. "Oes 'na le i ni yn rhywle?" plediodd.

Roedd Mair a Joseff yn flinedig iawn. O'r diwedd fe gawson nhw le mewn stabl. Roedd y stabl yn gynnes a sych. Ond roedd rhaid iddyn nhw rannu'r gyda'r anifeiliaid.

Ond yn fuan iawn roedd rhywbeth pwysicach ar eu meddyliau – roedd y babi ar fin cael ei eni.



Roedd hi'n noson dawel ar y bryniau uwchlaw Bethlehem. Roedd y bugeiliaid allan yn gwylio'u defaid. Yn sydyn, ymddangosodd angel o'u blaenau. Roedd gan yr angel newyddion da!



Dwedodd wrth y bugeiliaid, "Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem. Ie, y Meseia! Yr Arglwydd! Dewch o hyd iddo yn fabi bach wedi ei lapio mewn cadachau ac yn gorwedd mewn preseb." Yn sydyn dyma filoedd o angylion eraill yn dod i'r golwg, roedd fel petai holl angylion y nefoedd yno yn addoli Duw!



Dyma'r bugeiliaid yn dweud wrth ei gilydd, "Dewch! Gadewch i ni fynd i Bethlehem, i weld beth mae'r Arglwydd wedi ei ddweud wrthon ni sydd wedi digwydd." Felly i ffwrdd â nhw!



Dyma nhw'n dod o hyd i Mair a Joseff a'r babi bach yn gorwedd mewn preseb. Ar ôl ei weld, dyma'r bugeiliaid yn mynd ati i ddweud wrth bawb beth oedd wedi digwydd, a beth ddwedodd yr angel wrthyn nhw am y plentyn yma. Y plentyn oedd eu brenin newydd - yr un oedden nhw wedi bod yn disgwyl amdano.



Ble cawsoch chi eich geni? Nid mewn stabl debyg iawn!  
Ond dyna le ganwyd Iesu – yng nghanol yr anifeiliaid.  
Roedd y bugeiliaid yn dlawd, ac roedd y gwŷr doeth yn  
gyfoethog – ond doedd dim gwahaniaeth y noson honno.

Un peth oedd yn bwysig - sef eu bod nhw wedi teithio i  
addoli'r brenin newydd ac wedi mynd ar eu gliniau o'i  
flaen. Roedden nhw eisiau ei addoli a diolch iddo am  
ddod i'r byd.

Ydych chi'n credu bod Duw yn cadw ei addewidion? Dw i'n credu ei fod o.  
Tybed ydyn ni'n cadw'n holl addewidion? Beth am edrych ar rai ohonyn nhw?

Gweddïwn i orffen a diolch am eni'r Arglwydd Iesu.

**Gweddïwn:** ein Tad, diolch i ti am bawb sydd yma heddiw. Diolch am ein gilydd, am ffrindiau da, am athrawon ac am rieni caredig. Diolch i ti am y Nadolig, am gael amser i feddwl am wir ystyr y geni gwyrthiol a ddigwyddodd ym Methlehem dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Helpa ni i ddathlu geni Iesu ac i ddeall fel gwnaeth y bugeiliaid a'r gwŷr doeth mai ef yn wir oedd Mab Duw – yr Emaniwel, sef Duw gyda ni.

Diolchwn am yr holl fwyd a diod rydyn ni'n derbyn yr adeg yma o'r flwyddyn. Diolchwn am yr holl anrhegion fydd ganddon ni i'w hagar. Ein Tad, wrth feddwl am yr holl roddion helpa ni i gofio am yr aur, thus a'r myrr a'r baban bach a ddaeth o'r nef i rannu neges heddwch gyda holl bobl y byd. Amen.

NADOLIG LLAWEN I CHI I GYD.



## ***Syniadau am ganeuon***

Mae yna garolau a chaneuon Nadolig yng Nganeuon Ffydd;  
ar wefan [www.gobaith.cymru](http://www.gobaith.cymru);  
mewn amrwyiol lyfrau e.e.llyfr caneuon newydd 'Canu Clod', 1 a 2 gwefan [ysgolsul.com](http://ysgolsul.com)

## ***Awgrymiadau am bryd o fwyd***

Cadw at thema'r Nadolig

Shepherd's pie\* (syml i'w baratoi ymlaen llaw) yn cael ei weini gan fugeiliaid!

Bisgedi a chacennau wedi eu torri'n siâp seren.

\* Cofiwch baratoi bwydydd llysieuol a heb gluten